# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 4

SAFONAU AR GYFER TAI CYMDEITHASOL

*Safonau ar gyfer tai a ddarperir gan awdurdodau tai lleol*

### 112 Canllawiau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru rhoi canllawiau—

(a) sy'n berthnasol i fater yr eir i'r afael ag ef mewn safon o dan adran 111, a

(b) yn ymhelaethu ar y safon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi sylw i'r canllawiau wrth ystyried a yw safonau wedi cael eu bodloni.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) adolygu'r canllawiau drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon;

(b) tynnu'r canllawiau'n ôl drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon neu drwy hysbysiad.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau neu hysbysiad o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 112 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 112 mewn grym ar 1.12.2014 gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(a), **Atod. Rhn. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 112.